# Lloffion Papur Newydd

Mae'r cynllun gweithgaredd yma yn canolbwyntio ar y problemau a ddaw yn sgil sbwriela a thipio anghyfreithlon, a'r effeithiau ar yr amgylchedd, y gymuned a'r economi.



Bwriad Cyfoeth Naturiol Cymru yw rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol ym mhob agwedd o'u gwaith. Mae hyn yn golygu gwarchod tir, dŵr, aer, pridd, planhigion a bywyd gwyllt er lles Cymru ac ar gyfer ein dyfodol.

## Amcanion

**Erbyn diwedd y gweithgaredd dylai'r cyfranwyr allu:**

- Esbonio beth yw tipio anghyfreithlon
- Trafod sut mae tipio anghyfreithlon yn effeithio ar yr amgylchedd, ar y gymuned a'r economi
- Cynnig ystod o safbwyntiau ar effeithiau tipio anghyfreithlon a'i darddiad

## Hyd y sesiwn

45 munud

## Safle yn y cwricwlwm

ADCDF
Daearyddiaeth

## Lleoliad

Unrhyw ardal y tu allan neu y tu mewn (gan ddibynnu ar faint y gofod)

addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiol.cymru

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

## Dolenni cwricwlwm

### CA2 ADCDF
**Defnydd a gwastraff**
Bod gwastraff yn gallu achosi llygredd
O le mae pethau sy'n cael eu defnyddio gan bobl yn dod, ac i le maen nhw'n mynd

### CA2 Daearyddiaeth
**Astudiaeth**
Byw yn fy myd i: gwarchod lleoedd ac amgylcheddau a'r pwysigrwydd o fod yn ddinasyddion byd-eang

### CA3 ADCDF
**Amgylchedd naturiol**
Dangos pryder gwybodus ynglŷn â chyflwr yr amgylchedd naturiol, yn lleol a thu hwnt

### CA3 Daearyddiaeth
**Astudiaeth**
Dinasyddion y dyfodol: materion Cymru a'r byd wrth geisio byw yn gynaliadwy a'r cyfrifoldebau o fod yn ddinesyddion byd-eang

## Offer ac adnoddau

- **Cardiau adnodd: Penawdau papurau newydd**
- **Camera fideo i recordio sgets rhaglen newyddion (dewisol)**

## Beth sydd angen ei wneud:

- Esbonio mai tipio sbwriel a gwastraff yn anghyfreithlon yw tipio anghyfreithlon. Mae sefydliadau megis Taclo Tipio Cymru yn bodoli er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r broblem ac i weithio gyda chymunedau lleol i atal hyn rhag digwydd.
- Trafod pam fod tipio anghyfreithlon yn destun cyffredin ar y newyddion: ei effaith negyddol ar yr amgylchedd a chymunedau lleol.
- Yn ystod y gweithgaredd yma bydd y grŵp yn rhoi bywyd i bennawd newyddion trwy greu a gohebu rhaglen newyddion lle bydd y gohebydd yn cyfweld â sawl cymeriad gwahanol a effeithiwyd gan dipio anghyfreithlon. Mae'r *penawdau* wedi'u selio ar ddigwyddiadau gwir (gweler y wybodaeth ychwanegol).
- Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o hyd at 5 o ddysgwyr.
- Bydd pob grŵp yn derbyn cardiau adnodd a fydd yn cynnwys pennawd newyddion, 4 cerdyn cymeriad a cherdyn gohebydd.
- Gofynnwch i'r grwpiau ddarllen eu pennawd newyddion a thrafod pa fath o broblemau all godi o ganlyniad i'r tipio anghyfreithlon.
- Dosbarthwch rannau'r cymeriadau a darparwch y cerdyn cymeriad perthnasol.
- Bydd y cerdyn cymeriad ar gyfer pob pennawd yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â sut y gwnaeth y tipio effeithio arnyn nhw.
- Dylai'r dysgwyr gael eu hannog i ddefnyddio'r cardiau yma fel hwb i fyrfyfyrio yn hytrach na'u defnyddio fel sgript.
- Dylai'r cerdyn gohebydd gael ei ddefnyddio i arwain y cwestiynau a gaiff eu gofyn i'r cymeriadau eraill, ond dylai'r grŵp hefyd gael eu hannog i feddwl am gwestiynau eu hunain i ofyn i'r cymeriadau.
- Rhowch amser i'r grwpiau i drafod y pennawd ac i ymarfer cyn mynd ati i ofyn i bob grŵp berfformio eu rhaglen newyddion. Gwnewch yn siŵr bod y pennawd newyddion yn cael ei amlygu cyn i'r gohebydd ddechrau cyfweld â'r cymeriadau. Gallwch ffilmio pob perfformiad os bydd yr offer ar gael i chi.
- Gall gweddill y dysgwyr ofyn cwestiynau pellach i'r cymeriadau er mwyn cael rhagor o wybodaeth.

**Awgrymiadau o rai cwestiynau allweddol**

- Pam fod pobl yn tipio'n anghyfreithlon yn eich tyb chi?
- Sut fyddech chi'n teimlo pe baech chi'n gweld rhywun yn tipio ar eich stryd chi?
- Allwch chi feddwl am wahanol bobl all gael eu heffeithio gan dipio anghyfreithlon?

## Addasu ar gyfer anghenion/ gallu gwahanol

Gallu is:

- Gohebydd ond yn gofyn cwestiynau all gael eu hateb gyda'r wybodaeth ar y cardiau cymeriad yn unig.

Gallu uwch:

- Gall y dysgwyr drafod ffyrdd gwahanol y gall pob cymeriad fod wedi eu heffeithio gan dipio anghyfreithlon, rhai heb eu crybwyll ar y cardiau cymeriad.

## Gweithgaredd i ddilyn/Estyniad

- Ysgrifennu erthygl papur newydd i gyd-fynd â'r pennawd.

- - Rhoi cynnig ar weithgareddau gwastraff eraill:
  *- Sbwriel Hirhoedlog*
  *- Dal Tipiwr*
  *- A Wyddoch chi*

## Gwybodaeth bellach

Mae'r penawdau newyddion wedi'u seilio ar ddigwyddiadau gwir, ond wedi'u haddasu ar gyfer y gweithgaredd. Isod ceir dolenni yn arwain at yr erthyglau gwreiddiol:

- www.walesonline.co.uk/news/local-news/fly-tipping-blights-merthyr-common-furniture-8671025
- www.flytippingactionwales.org/cy/media/operation-tackling-fly-tipping-help-reduce-flooding-risk/#.WBxtSq1viUI
- www.bbc.co.uk/news/uk-wales-north-west-wales-33664279
- www.torfaen.gov.uk/en/News/2015/July/27-Cwmbranmanprosecutedforflytipping.aspx
- www.walesonline.co.uk/news/local-news/chepstow-man-arrested-connection-two-2084078

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ynglŷn â thipio anghyfreithlon ar wefan Taclo Tipio Cymru, gan gynnwys gwybodaeth am sut i adrodd digwyddiad neu i ganfod rhywun trwyddedig i gymryd eich gwastraff:
www.flytippingactionwales.org/cy/



Fformat amgen; print bras neu iaith arall, cysylltwch os gwelwch yn dda:
ymholiadau@ cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
0300 065 3000
www.cyfoethnaturiol.cymru

FSC www.fsc.org FSC® C-115912
Arwydd o Goedwigaeth Gyfrifol
The mark of responsible forestry
Mae coetiroedd Llywodraeth Cymru wedi'u hardystio'n unol â rheolau'r Forest Stewardship Council®
Welsh Government woodlands have been certified in accordance with the rules of the Forest Stewardship Council®
FSC www.fsc.org RECYCLED Paper made from recycled material FSC® C008921
Argraffwyd ar bapur Revive Offset wedi'i ailgylchu 100%
Printed on Revive offset 100% recycled paper
NRWRC000